**Hawdd ei ddeall**

# Dewch i Siarad am beth rydych chi'n feddwl

## Ein Cynllun ar gyfer gwneud yn siŵr bod Pobl yn cael dweud beth maen nhw'n feddwl 2025 - 2030



**Mai 2026**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn Hawdd ei Ddarllen o: **Dewch i Siarad am eich Barn. Strategaeth Gynnwys 2025 - 2030.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni** mae hyn yn meddwl **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf neu CBSRCT** yn fyr. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch:

**Gwefan:** www.rctcbc.gov.uk/ymgynghoriadaupresennol

**E-bost:** ymgynghori@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Defnyddiodd Hawdd ei Ddeall Cymru Photosymbols i wneud y ddogfen hon yn ddogfen Hawdd ei Deall. I roi gwybod i ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Am y llyfryn yma ..... 4**

**Yr hyn byddwn ni'n ei wneud ..... 6**

**Ein Bwriad ..... 9**

**Beth yw Cynnwys ..... 14**

**Pwy fyddwn ni'n eu cynnwys ..... 16**

**Dilyn y Gyfraith ..... 19**

**Gwirio bod nodau yn cael eu cyflawni ..... 20**

**Cynllun Gweithredu ..... 22**


# Am y llyfryn yma



Rydyn ni'n ceisio ein gorau i wrando ar bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf. A chlywed beth sydd ar eu meddwl nhw.



Ond rydyn ni'n gwybod y gallwn ni wneud yn well.




Mae'r llyfryn yma hefyd yn cael ei alw yn **Strategaeth Gynnwys**.



Mae'n sôn am sut rydyn ni'n bwriadu gwrando ar bobl a chynnwys pobl yn ngwasanaethau'r Cyngor.




Bydd y Strategaeth newydd ar waith rhwng 2025 a 2030. Roedd yr hen strategaeth ar waith rhwng 2020 a 2025.




Mae'r cynllun newydd yn edrych ar newidiadau sydd wedi digwydd a newidiadau fydd yn digwydd. Rydyn ni wedi ystyried gwaith arall rydyn ni'n ei wneud pan roedden ni'n paratoi'r cynllun yma.

# Yr hyn byddwn ni’n ei wneud

Mae’r rhain am beth rydyn ni eisiau ei gyflawni:



• Bod yn glir am pam rydyn ni angen i bobl gael eu cynnwys.




• Gwneud yn siwr bod gwybodaeth y Cyngor yn cael ei rhoi mewn ffordd y mae modd i bobl ei deall.




• Gwneud yn siwr ein bod ni’n dangos beth mae pobl yn ei ddweud.



• Gwneud yn siwr bod y bobl sy’n cael eu cynnwys yn gwybod am benderfyniadau rydyn ni’n eu gwneud.



- Gwneud yn siwr bod modd i bawb sydd eisiau cael cynnwys gael eu cynnwys.




Rydyn ni'n ceisio ein gorau i wneud yn siwr bod modd i bawb roi barn am wasanaethau'r Cyngor. O ran sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u rhedeg.



Rydyn ni hefyd eisiau gwneud yn siwr bod pobl yn gallu rhoi eu barn drwy lawer o ffyrdd gwahanol.



Mae dewisiadau pawb o bwys iddyn nhw. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod barnau gwahanol gan bawb am bethau.



Rhaid i ni feddwl am lawer o bethau pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau.




Rydyn ni eisiau gwneud yn siwr bod pob person sy’n byw yn Rhondda Cynon Taf yn teimlo eu bod nhw’n cael eu clywed.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siwr bod pobl yn gwybod pam rydyn ni’n gwneud y penderfyniadau rydyn ni’n eu gwneud.

# Ein Bwriad




Rydyn ni eisiau gwneud 7 peth mawr. Rydyn ni'n galw'r rhain yn **amcanion cynhwysiant**.

**Mae'r 7 peth yn cynnwys:**

**1. Gwneud yn siwr bod pobl yn cael rhagor o gyfleoedd i roi eu barn nhw am benderfyniadau'r Cyngor.**



- Cynnwys pobl yn gynnar yn y broses yma. Canfod pwy fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan benderfyniad.



- Esbonio'n glir pam rydyn ni eisiau barn pobl.



- Meddwl am y ffyrdd gorau o gynnwys pobl nawr ac yn y dyfodol.

## 2. Gwneud pethau'n hawdd i unrhyw un gymryd rhan.




- Defnyddio iaith glir a'i rhoi i bobl mewn ffordd y maen nhw'n gallu ei deall. Er enghraifft mewn ffyrdd 'Hawdd ei Ddarllen' a ffurfiau eraill.




- Gwneud yn siwr bod yr amser a'r lle sydd eu hangen ar gael er mwyn i bobl gymryd rhan.



- Siarad â phobl yn eu cymunedau.

## 3. Gofalu bod gwahanol bobl a grwpiau yn cael eu cynnwys.



- Gofalu bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cael eu cynnwys. Does dim ots beth yw eu cefndir, eu credoau, neu pa anghenion sydd gyda nhw.



- Gwneud yn siwr bod pobl sydd ddim yn mynd ar-lein yn cael cyfle i roi eu barn nhw.



- Meddwl am y pethau sy'n gallu atal pobl rhag cymryd rhan.

## 4. Cydweithio â gwasanaethau eraill sy’n cynnwys pobl. Bydd hyn yn helpu i stopio pobl rhag dweud yr un pethau eto ac eto.



- Cydweithio yn dda a defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau gydag ein gilydd.



- Edrych ar y grwpiau presennol.

## 5. Dweud wrth bobl am beth ddigwyddodd nesaf.




- Dweud wrth bobl am beth wnaethon ni ar ôl iddyn nhw rannu eu barn.




- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i bobl mewn ffyrdd y mae modd i bobl ei deall.

## 6. Gwneud yn siwr bod gan staff y sgiliau maen nhw eu hangen.




- Dangos i staff sut i gynnwys pobl.




- Gwneud yn siwr bod gan staff yr amser a phopeth maen nhw eu hangen er mwyn cynnwys pobl mewn ffordd dda.

## 7. Gwirio a Gwella



- Gwiriwch pa mor dda yw ein gwaith cynnwys.
- Edrych ar wybodaeth sydd gyda ni am bobl yn yr ardal. Mae hyn ein helpu ni i gynllunio yn well.



- Rhannu beth rydyn ni'n ei ddysgu gydag eraill.

# Beth yw Cynnwys




Mae 4 math gwahanol o gynnwys.



1. **Cyfranogiad -** mae hyn yn golygu gwrando ar bobl dros amser am fater.



2. **Cyd-gynhyrchu -** mae hyn yn golygu pobl yn gweithio gyda'r Cyngor er mwyn gwneud i rywbeth ddigwydd neu newid.




3. **Darparu Gwybodaeth -** mae hyn yn golygu rhoi gwybodaeth i bobl am rywbeth.



4. **Ymgynghoriad -** mae hyn yn ffordd o ofyn i bobl rannu eu barn. Er enghraifft, drwy arolwg.



Bydd y math o gynnwys y byddwn ni'n ei ddefnyddio yn dibynnu ar y sefyllfa.



Rydyn ni angen darparu rhagor o gyfleoedd **cyfranogiad** a **chyd-gynhyrchu**.

# Pwy fyddwn ni'n eu cynnwys



Llawer o bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf.



Mae modd i ni ddefnyddio gwybodaeth y Cyngor er mwyn dysgu rhagor am bwy sy'n byw yma. Er enghraifft, oedrannau pobl.



Mae modd i hyn ein helpu ni i wybod pwy rydyn ni angen eu cynnwys.



Mae modd i'r data yma hefyd ein helpu ni weld y newidiadau sy'n digwydd. Rydyn ni'n edrych ar wybodaeth dros amser ac yn edrych sut mae pethau'n newid.



Er enghraifft, rydyn ni'n gwybod bod mwy o bobl hŷn nawr na o'r blaen. Mae pobl yn byw'n hirach.

# Rhanddeiliaid

Rhanddeiliaid yw'r enw rydyn ni'n ei roi ar y bobl a'r sefydliadau rydyn ni'n cael effaith arnyn nhw. Er enghraifft:






- Trigoloion
- Busnesau
- Ymwelwyr
- Staff
- Llywodraeth Cymru
- Ysgolion
- Grwpiau Cymunedol
- a llawer yn rhagor.

# Ffyrdd o gymryd rhan

Mae nifer o ffyrdd i bobl gymryd rhan. Er enghraifft:




- Digwyddiadau.



- Arolygon.

- Arolygon Ar-lein.



- Grwpiau - megis fforymau a grwpiau ffocws.

- Galwadau Ffôn.



- Cyfarfodydd gyda’r gymuned.

- Cyfryngau Cymdeithasol.



- Cyfarfodydd y Cyngor.

- Panel Dinasyddion - mae hyn yn gyfarfod cyngor yn benodol ar gyfer pobl.




- Dogfennau Hawdd eu Darllen a Chymraeg Clir neu Saesneg syml.

# Dilyn y Gyfraith



Mae'r barn gan bobl yn bwysig. Mae'n dweud wrthon ni beth mae pobl ei eisiau a'i angen.




Rydyn ni hefyd yn cynnwys pobl o ganlyniad i lawer o gyfreithiau a pholisïau yng Nghymru, y DU a'r byd. Mae'r rhain yn dweud wrthon ni pam mae'n bwysig.

Er enghraifft:




**Deddf Cydraddoldeb 2010**

http://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance


**Safonau'r Gymraeg**

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WelshServices/Relateddocs/HysbysiadCydymffurfio.pdf

**Cynllun y Cyngor**

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/PerformanceBudgetsandSpending/Councilperformance/TheCouncilsCorporatePlan.aspx


# Gwirio bod nodau yn cael eu cyflawni




Rydyn ni wedi gofyn i bobl am eu barn er mwyn ein helpu ni i lunio cynllun gweithredu.



Dyma restr fanwl o'r holl gamau gweithredu y byddwn ni'n eu cymryd. Mae'n nodi'r pethau y byddwn ni'n eu gwneud yn fwy manwl.




Mae rhagor o fanylion am y rhain wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf - Cynllun Gweithredu.



Byddwn ni'n edrych ar hyn bob blwyddyn er mwyn gweld pa mor dda rydyn ni'n gwneud.



Rydyn ni hefyd yn edrych ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn y Cyngor. Mae hyn yn edrych ar effaith y gwaith rydyn ni'n ei wneud a sut mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth.





Rhaid i ni ofyn y 3 chwestiwn yma i'n hunain:

1. Ydyn ni'n gwneud yn dda?
2. Sut rydyn ni'n gwybod?
3. Sut gallwn ni wella?

# Cynllun Gweithredu



Rydyn ni wedi llunio'r Cynllun Gweithredu yma drwy ofyn i bobl am eu barn.




Byddwn ni'n gwneud rhagor o gamau gweithredu pan fyddwn ni'n gweithio gyda rhagor o grwpiau o bobl. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau ein bod ni'n cyflawni nodau penodol. Mae'r rhestr o gamau gweithredu wedi'i nodi ar gyfer pob un o'n 7 nod:

## 1. Gwneud yn siwr bod pobl yn cael rhagor o gyfleoedd i roi eu barn nhw am benderfyniadau'r Cyngor.



- Meddwl am y ffyrdd cywir o weithio gyda grwpiau gwahanol o bobl.



- Siarad rhagor â phobl wyneb yn wyneb.




- Defnyddio’r deunyddiau cywir ar gyfer y gynulleidfa. Er enghraifft, pethau sy’n Hawdd eu Darllen a Iaith Arwyddo.



- Llunio cyfeirlyfr ar gyfer grwpiau cymunedol lleol.



- Mynd i ragor o gyfarfodydd cymunedol.




- Dweud wrth bobl am beth ddigwyddodd nesaf.



- Bod yn agored ac yn onest.

## 2. Gwneud pethau'n hawdd i unrhyw un gymryd rhan.



- Byddwn ni'n defnyddio llawer o ffyrdd i ddweud wrth bobl sut maen nhw'n gallu cymryd rhan.




- Byddwn ni'n gwneud yn siwr bod gan bobl amser i roi eu barn.



- Mae hyn yn gwneud pethau'n haws i bobl gymryd rhan.



- Gwneud rhagor o waith yn gynnar yn y nos ac ar y penwythnos i gynnwys pobl.


## 3. Gofalu bod gwahanol bobl a grwpiau yn cael eu cynnwys.



- Siarad â phlant, o oedran ysgol gynradd.




- Defnyddio iaith sy'n hawdd ei deall.



- Defnyddio technoleg ysgol er mwyn cynnwys pobl. Er enghraifft, 'Parent App'.



- Gweithio â'r Gwasanaeth Ieuenctid - Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid.

- Gweithio gyda grwpiau presennol.




- Cynnig pethau megis talebau i bobl am gymryd rhan.

## 4. Cydweithio â gwasanaethau eraill sy'n cynnwys pobl. Bydd hyn yn helpu i stopio pobl rhag dweud yr un pethau eto ac eto.



- Ymuno ag achlysuron, grwpiau ac mewn cyfarfodydd cymunedol.



- Gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn helpu i stopio pobl rhag dweud yr un pethau eto ac eto. Er enghraifft, Heddlu De Cymru.

## 5. Dweud wrth bobl am beth ddigwyddodd nesaf.




- Gwella ein gwefan.



- Sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi am gymryd rhan.



- Mynd i gyfarfodydd pellach lle mae hynny’n bosib.




- Dweud wrth bobl beth wnaethon ni nesaf bob tro.



- Dylai adborth fod ar amser a bod yn hawdd ei ddarllen.

## 6. Gwneud yn siwr bod gan staff y sgiliau maen nhw eu hangen.



- Meddwl rhagor am beth mae staff angen ei wneud cyn cynnwys pobl.



- Sicrhau bod staff yn gwybod am faterion pwysig sy’n digwydd.



- Rhoi hyfforddiant i staff ac eraill mewn perthynas â chynnwys pobl.




- Sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant am ystod o anghenion a chefndiroedd pobl.



- Hyfforddi staff am sut i wneud gwybodaeth yn hawdd i’w darllen.

# 7. Gwirio a Gwella.




- Llunio canllawiau er mwyn helpu gwasanaethau i wirio eu gweithgareddau.



- Meddwl am beth sy'n gweithio a beth sydd angen newid.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247